Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Rhagfyr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Rhagfyr 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 5**

Diben y Bil ..... 5

Y cefndir ..... 6

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ..... 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 8**

Cyffredinol ..... 8

Ein barn ni ..... 9

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 10**

Yr angen am y ddeddfwriaeth ..... 10

Cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael i is-ddeddfwriaeth ..... 12

Ein barn ni ..... 13

**4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 15**

Adran 2 – Strategaeth IAP genedlaethol ..... 15

Ein barn ni ..... 17

Adran 3 – Canllawiau IAP ..... 17

Ein barn ni ..... 18

Adran 4 – Cynlluniau IAP ..... 18

Ein barn ni ..... 19

Adran 5 – Ymgynghorydd IAP ..... 20

Ein barn ni ..... 21

Adran 6 – Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig ac Adran 7 – Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ..... 22

Ein barn ni ..... 23

Adran 8 – Ystyr “corff cyhoeddus rhestredig” ..... 23

Ein barn ni ..... 24

# 1. Cyflwyniad

## Ar 14 Gorffennaf 2025, cyflwynwyd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (y Bil)[1] gan Mark Isherwood AS (yr Aelod sy'n gyfrifol). Gosododd, hefyd, Femorandwm Esboniadol (y Memorandwm) i gyd-fynd â'r Bil.[2]

**1.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 24 Mehefin 2025, ac ar 8 Gorffennaf 2025 gosododd derfyn amser o 5 Rhagfyr 2025 ar gyfer adrodd ar ei egwyddorion cyffredinol.[3]

**2.** Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ddatganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.[4]

**3.** Cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol, hefyd, ddehongliad Iaith Arwyddion Prydain (IAP) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.[5]

## Diben y Bil

**4.** O fewn y Memorandwm, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi mai prif bwrpas y Bil yw hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru, drwy osod dyletswyddau amrywiol newydd ar Weinidogion Cymru ac ar gyrff cyhoeddus penodol.[6]

**5.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn datgan ymhellach fod y darpariaethau allweddol yn y Bil yn cynnwys gofynion ar gyfer y canlynol:

- Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio'r ffordd y maent hwy eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a'r ffordd y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud hynny;

[1] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm), Gorffennaf 2025
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), Gorffennaf 2025
[4] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer isddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil hwn, Gorffennaf 2025
[5] Ar gael yn: https://www.youtube.com/watch?v=bzUcW6wkqHI
[6] Y Memorandwm, paragraff 162

- Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- y cyrff cyhoeddus penodol rhestredig yn y Bil i lunio cynlluniau IAP sy'n disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o dan ddarpariaethau'r Bil;
- Gweinidogion Cymru i benodi rhywun yn gynghorydd IAP iddynt, ynghyd â phanel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd IAP.[7]

## Y cefndir

**6.** Mae Rheol Sefydlog 26.87 yn darparu, o bryd i'w gilydd, bod yn rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod, heblaw aelod o'r llywodraeth, a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil (Bil Aelod).[8]

**7.** Ar 24 Ebrill 2024, cyhoeddodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, fod cynnig yr Aelod sy'n gyfrifol ar gyfer Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) wedi bod yn llwyddiannus mewn pleidlais ar Fil Aelod.[9]

**8.** Ar 31 Mai 2022, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91A, gosododd yr Aelod sy'n gyfrifol Femorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil arfaethedig. O fewn y Memorandwm hwnnw, dywedodd mai diben y Bil fyddai "gwneud darpariaeth i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o BSL a'i ffurfiau cyffyrddol yng Nghymru; gwella mynediad at addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus mewn BSL a chefnogi'r broses o gael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli i bobl fyddar a'u teuluoedd mewn addysg, iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau cymorth ac yn y gweithle."[10]

**9.** Ar 19 Mehefin 2024, cafodd yr Aelod sy'n gyfrifol gytundeb y Senedd i gyflwyno'r Bil.[11]

**10.** Cyflwynwyd y Bil gerbron y Senedd ar 14 Gorffennaf 2025.

---

[7] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraff 163
[8] Gweler y Canllaw i'r broses ar gyfer Bil Aelod, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, i gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn Bil Aelod.
[9] Cyfarfod Llawn, 24 Ebrill 2024, Cofnod y Trafodion
[10] Memorandwm Esboniadol a osodwyd o dan Reol Sefydlog 26.91A: Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru), Mai 2024
[11] Y Cyfarfod Llawn, 19 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, eitem 5

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**11.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**12.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, ein dull yw ystyried y canlynol:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a adawir i is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**13.** Clywsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), Jane Hutt AS, mewn perthynas â'r Bil ar 6 Hydref 2025.[12]

**14.** Clywsom dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol ar 13 Hydref 2025.[13]

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[14]

### Cyffredinol

**15.** Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau cymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**16.** Dywedodd y Llywydd y byddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[15]

**17.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym mewn tystiolaeth lafar ei fod o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[16]

**18.** Pan roddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 6 Hydref 2025, eglurodd, er nad oedd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y Memorandwm a oedd yn cyd-fynd â'r Bil, sy'n cynnwys y datganiad o gymhwysedd deddfwriaethol, eu bod yn fodlon bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[17]

**19.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd unrhyw faterion hawliau dynol yn codi mewn perthynas â'r Bil. Atebodd fel a ganlyn:

> "*Yes, it's important that we look at that issue (…) but the responsibility for drafting the regulatory impact assessment remains with Mark Isherwood (…) we recognise that he's produced an equality impact assessment that states that the aim of the Bill to facilitate and promote BSL use aligns, for us as a Welsh Government, with the public sector equality duty, PSED, and our national equality objective*. So, we do support the Member in that he has considered equality and human rights as

[14] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, Datganiad o Gymhwysedd Deddfwriaethol
[15] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 14 Gorffennaf 2025
[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [92]
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [9]

> part of the Bill preparations, and that the provisions of the Bill are compatible with human rights legislation."[18]

**20.** Gofynnwyd, hefyd, i'r Aelod sy'n gyfrifol a oes unrhyw faterion hawliau dynol yn codi mewn perthynas â'r Bil. Wrth ymateb, dywedodd y canlynol:

> "*No. (…) it's not actually a human rights Bill; it's a language Bill. BSL is not a learning disability, it's not itself a communication tool; it's a language. So, this Bill is very much being presented on that basis. But notwithstanding that, we considered both the human rights and equalities aspects of this and found that they do fall not only within the legislation that exists for human rights and equalities, but also in many respects adds to them for the population concerned.*"[19]

## Ein barn ni

**21.** Nodwn y dystiolaeth mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol, yn ogystal â goblygiadau hawliau dynol, gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Ysgrifennydd Cabinet.

**22.** Nodwn, hefyd, fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**23.** Nodwn sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch ei asesiad ynghylch a oes unrhyw faterion hawliau dynol yn codi mewn perthynas â'r Bil. Er ein bod yn cydnabod nad yw'n ofynnol o dan Reolau Sefydlog y Senedd, byddem wedi hoffi gweld ei asesiad o ymgysylltiad y Bil â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i gynnwys yn y Memorandwm.

[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [11]
[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [94]

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Yr angen am y ddeddfwriaeth

**24.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi yn y Memorandwm fod angen y Bil am dri phrif reswm:

> "*Mae seneddau eraill yn y DU wedi creu cynseiliau ar gyfer gosod dyletswyddau ar y llywodraeth a chyrff rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd y Bil yn sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Heb y Bil hwn, bydd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau statudol llawer gwannach, gan roi arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill yn y DU.*
>
> *Er mwyn cydnabod anghenion ieithyddol cymuned IAP a'i hunaniaeth a'i threftadaeth ddiwylliannol. Er bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod unigolion rhag gwahaniaethu, bydd y Bil hwn yn sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o IAP fel iaith yn ei rhinwedd ei hun.*
>
> *Ar hyn o bryd, mae arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, bydd y Bil yn sicrhau bod llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.*"[20]

**25.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn datgan bod ymgynghori ar gynigion y Bil "yn dangos bod cefnogaeth gref iddynt a chytundeb bod angen deddfwriaeth".[21]

**26.** Cyfiawnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil fod angen y Bil mewn tystiolaeth lafar, fel a ganlyn:

[20] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraff 13
[21] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraff 14

> "*There's a huge demand within particular deaf communities across Wales, and their families and friends and people who live and work with them in their communities at large. The main issues that keep arising—and we all know this from our own casework—are educational under-attainment, lack of true access to health services and an inability, therefore, to communicate directly and be fully understood, and to ensure understanding on the other side, with doctors, clinicians, nurses, consultants and otherwise, which jeopardises things like medication or perhaps ensures the wrong or inappropriate treatment. We know there are double the rates of mental illness amongst deaf people compared to the general population, although deafness, as you know, is not a learning disability or a mental illness. We know that there are lower employment rates and higher rates of disadvantage and deprivation amongst the deaf community. There's clearly an unmet need, despite the legislation that exists and the policies that exist at both UK and devolved levels. So, something needs to be done.*"[22]

**27.** Pan ofynnwyd iddo fyfyrio ar ei drafodaethau â Llywodraeth Cymru, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol fel a ganlyn:

> "*You may recall that when this was debated in the Senedd Chamber in June 2024, initially the then Cabinet Secretary, or Minister, responsible said that the Welsh Government couldn't see a need for this legislation. But, over the following months, the Welsh Government's position changed. I had spoken with the Cabinet Secretary and told her that this Bill was too important to lose; we needed something at least equivalent to the other UK nations. Obviously, there was Scottish legislation, there was legislation in England, only some of which applied in Wales, leaving huge gaps, and there was legislation being taken through in Northern Ireland by the Executive, their Government. Wales needed this legislation. But if it meant losing it, as currently drafted, let's talk about compromises, if necessary, to ensure that the deaf community in Wales has at*

[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [82]

> *least as much legislative provision in these areas as the other parts of the UK."*[23]

## Cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael i is-ddeddfwriaeth

**28.** Mae'r Bil yn cynnwys 11 adran ac Atodlen, ac mae'n cynnwys dau bŵer i wneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

**29.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol am ei farn ar y cydbwysedd a geir gan y Bil. Eglurodd mai ei fwriad oedd iddo fod yn Fil fframwaith i hybu a hwyluso, gan ddatgan y byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y strategaeth a'r canllawiau sy'n hybu ac yn hwyluso IAP.[24]

**30.** Esboniodd y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ymgynghori â'r cynghorydd IAP a'r panel IAP, a fydd yn gweithio gyda'r gymuned fyddar yn fwy eang. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fwy am hyn, fel a ganlyn:

> *"… it is a framework Bill to enable and ensure that future Welsh Governments, not just the next one, do promote and facilitate BSL and put in place measures to ensure that the changes we all hope to see come into force."*[25]

**31.** Pan ofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd wedi ystyried unrhyw ddyletswyddau penodol a allai fod wedi'u cynnwys, nododd ddarparu dehonglwyr, cyfluniad gwasanaethau iechyd, a mesurau ar gau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol fel enghreifftiau.[26]

**32.** Nid yw'r Bil yn nodi unrhyw sancsiynau am fethu â hybu a hwyluso IAP. Pan ofynnwyd iddo fyfyrio ar hyn, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"That's been a concern that has been picked up by members of the previous two committees that we've given evidence on this Bill to. You're technically absolutely correct that, once the local authority has published its progress report, there's nothing there that mandates the Welsh Government or any other body to penalise failure to deliver. But there are the ongoing*

---

[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [88]
[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [97]
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [97]
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [99]

*mechanisms that I referred to—the Welsh Government's own three-yearly reports, its six-yearly strategy reviews—and its scorecard will be determined across Wales by how those public bodies perform. They can require those public bodies to revise their plans. If, say, a public body is required to revise its plan, then it must publish a new plan and then a further review within 12 months of that, or a progress report within 12 months of that. So, there are some mechanisms in place that prevent a listed public body simply walking away and forgetting, but a lot of that will be determined by the vigilance of future Ministers and officials in giving this the due regard and importance that it should be given."*[27]

## Ein barn ni

**33.** Nodwn mai Bil Aelod yw hwn, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i'w gyflwyno. Nodwn yr achos a wnaed gan yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch pam mae angen y ddeddfwriaeth hon, sef sicrhau bod yna, o leiaf, gydraddoldeb â'r dyletswyddau statudol yn awdurdodaethau eraill y DU mewn perthynas â darpariaeth IAP, ac i fynd i'r afael â'r heriau amlwg y mae arwyddwyr IAP yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

**34.** Nodwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi cyfeirio at y Bil hwn fel Bil fframwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y Bil yn ceisio hybu'r defnydd o IAP yng Nghymru ac felly bod ei ffocws polisi yn gul, gyda dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi strategaeth IAP genedlaethol a chyhoeddi canllawiau, ac i gynlluniau IAP gael eu cyhoeddi gan gyrff cyhoeddus rhestredig.

**35.** Nid ydym yn ystyried hwn yn Fil fframwaith o ystyried na fydd polisi a chyfraith sylweddol yn cael eu cyflawni drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym yn fodlon, felly, â'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil.

**36.** Rydym yn cydnabod esboniad yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch pam nad oes sancsiynau wedi'u pennu am fethu â hybu neu hwyluso IAP. Wrth wneud hynny, rydym yn nodi pwerau Llywodraeth Cymru o dan adran 4(3)(a) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adolygu eu cynlluniau IAP, ynghyd â'r gofynion adrodd arnynt a'r awgrym y dylai hyn sicrhau y bydd cyrff cyhoeddus yn agored i waith craffu, rhag ofn iddynt danberfformio yn y maes hwn.

[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [131]

**37.** Rydym yn ystyried darpariaethau penodol y Bil yn fanylach ym Mhennod 4 yr adroddiad.

# 4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

## Adran 2 – Strategaeth IAP genedlaethol

**38.** Mae adran 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a sut y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud yr un peth. Diben y strategaeth yw cyflawni dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 1 o'r Bil i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

**39.** Mae is-adran (2) o adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn:

- Cyhoeddi'r strategaeth IAP o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y mae'r Ddeddf hon, os caiff ei deddfu, yn cael ei dwyn i rym; a hefyd
- adolygu'r strategaeth o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 6 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl ei chyhoeddi gyntaf.

**40.** O dan is-adran (3) o adran 2, rhaid i Weinidogion Cymru osod y strategaeth, ac unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohoni, gerbron y Senedd, a sicrhau ei bod ar gael yn IAP. Rhaid iddynt, hefyd, ymgynghori â'r cynghorydd IAP (a benodwyd o dan adran 5 o'r Bil), ac unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi'r strategaeth, ac unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohoni.

**41.** O ran y ddarpariaeth hon, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn datgan fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"… mae anawsterau sylweddol i bobl Fyddar o ran cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Mae ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau cyhoeddus pwysig hyn, a mwy, yn gam pwysig i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn hygyrch i'r gymuned Fyddar. …*
>
> *Nid yw manylion y strategaeth wedi'u nodi ar wyneb y Bil, yn hytrach Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar gynnwys y*

> *strategaeth honno. Rhaid gwneud hyn drwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned Fyddar er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn ystyrlon ac yn addas at y diben."*[28]

**42.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol beth yr oedd yn rhagweld y byddai'n cael ei gynnwys yn y strategaeth genedlaethol. Eglurodd fel a ganlyn:

> "*Primarily, how the Welsh Government itself and its component parts will promote and facilitate in practice the use of BSL, but also its expectations of the listed public bodies and how they should also do so on a local or co-operative regional basis."*[29]

**43.** Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn disgwyl rhai o'r dyletswyddau penodol a drafodwyd ym mharagraff 31 o'r adroddiad hwn i'w gynnwys mewn canllawiau yn y dyfodol.[30] Nododd y byddai angen cynllun gweithlu cadarn fel rhan o hyn, er mwyn cyflawni rhai o'r nodau o dan sylw.[31]

**44.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol, sy'n rhaid digwydd, yn ôl y Bil, o fewn 18 mis ar ôl i'w darpariaethau ddod i rym.

**45.** Cydnabu fod y ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban yn nodi amserlen o 2 flynedd, ond nododd eu bod yn ystyried bod 18 mis yn gyfaddawd da rhwng yr amser sydd ei angen i gyrraedd pwynt cyhoeddi strategaeth, a'r angen i symud ymlaen â'r hyn y bwriedir i'r Ddeddf ei gyflawni.[32]

**46.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod yr amserlenni'n rhesymol o safbwynt Llywodraeth Cymru, gan ddweud wrth y Pwyllgor fod llawer o'r gwaith eisoes wedi digwydd ymlaen llaw, gyda grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid IAP eisoes ar waith.[33]

**47.** Ynghylch adolygu'r strategaeth o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 6 blynedd, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai dyma'r trefniant gyda'r ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban, hefyd. Fodd bynnag, eglurodd eu bod wedi dewis cryfhau'r

---

[28] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraffau 167 a 170
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [101]
[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [101]
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [102]
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [104]
[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [44]

trefniant drwy fynnu adroddiadau ar gynnydd bob tair blynedd gan Weinidogion Cymru, fel y nodir yn Adran 7 o'r Bil.[34]

### Ein barn ni

**48.** Rydym o'r farn bod yr amserlen i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth genedlaethol yn rhesymol, ac yn nodi ei bod yn cymharu'n gadarnhaol â'r sefyllfa yn yr Alban. Mae'r dull o adolygu'r strategaeth yn rhesymol, hefyd, yn ein barn ni, ac rydym yn cytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol bod y gofynion adrodd ar gyfer Gweinidogion Cymru (a ystyrir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer olrhain effeithiolrwydd, ac effaith y strategaeth.

**49.** Er bod y strategaeth yn allweddol, bydd y canllawiau sy'n cyd-fynd â hi hefyd yn hanfodol. Rydym yn ystyried hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

## Adran 3 – Canllawiau IAP

**50.** Mae adran 3 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i "gyrff cyhoeddus rhestredig" (fel y'u diffinnir yn adran 8 o'r Bil ac a ystyrir isod), ar sut y gallant hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau. Rhaid sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael yn IAP.

**51.** Pan ofynnwyd iddi pa gamau yr oedd hi'n rhagweld y byddai'n cael eu cynnwys yn y canllawiau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai'r canllawiau'n ganlyniad cyd-gynhyrchu, gyda grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid IAP yn cyhoeddi argymhellion ar gyfer y strategaeth genedlaethol ar 30 Medi 2025.[35]

**52.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd yn teimlo y dylai'r Senedd gael rôl wrth graffu ar y canllawiau, unwaith y byddant ar gael. Nododd fel a ganlyn:

> *"It is an expectation that Senedd Members and Senedd committees will have a close eye on not just the guidance but how the legislation in its entirety rolls forward and how it delivers on the matters it was intended to deliver upon. Generally, though, as you know, guidance is not normally directly scrutinised by the Senedd or parliaments in general. Guidance is issued subsequent to the passing of legislation by*

[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [110]
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [27 a 28]

> *the legislature, and then the legislature keeps a close eye on that through its various scrutiny processes as it goes forward."*[36]

**53.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y dull a gymerwyd yn mabwysiadu arfer arferol a bod swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol yn dangos, yn gyffredinol, er y gall y Senedd graffu ar godau ymarfer, nad yw hynny'n tueddu i fod yn wir am ganllawiau.[37]

### Ein barn ni

**54.** Rydym yn cydnabod y byddai'n anarferol i'r Senedd gael rôl ffurfiol wrth graffu ar ganllawiau; fodd bynnag, mae'n amlwg bod yn rhaid rhoi sylw i'r canllawiau yn yr achos hwn, o ystyried y bydd yn ffactor arwyddocaol wrth gyflawni'r amcanion polisi sy'n sail i'r Bil.

**55.** Er nad yw'n arfer safonol, teimlwn y byddai'n fuddiol gosod y canllawiau gerbron y Senedd er mwyn eu dwyn yn ffurfiol i sylw Aelodau o'r Senedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y byddai gweithredu'r Bil, pe bai'n cael ei basio gan y Senedd hon, yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a byddai unrhyw waith craffu ar y gweithrediad hwnnw yn syrthio ar y Senedd nesaf.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r canllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 3, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt yn y dyfodol, gael eu gosod gerbron y Senedd.

## Adran 4 – Cynlluniau IAP

**56.** Mae adran 4 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus rhestredig (y mae ei ddiffiniad yn cael ei ystyried isod) baratoi a chyhoeddi cynllun IAP sy'n disgrifio sut mae pob corff cyhoeddus rhestredig yn bwriadu "hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau" a sut maen nhw'n bwriadu dilyn, neu beidio â dilyn, canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 3.

**57.** Mae adran 4(1)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhaid i gynllun IAP corff cyhoeddus rhestredig ei chynnwys, yn amodol ar y weithdrefn ddirymu. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [115]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [115 a 116]

> *"Byddai'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen i fanylion a chynnwys cynlluniau IAP newid dros amser i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Felly, mae'n briodol y dylid gwneud hyn drwy reoliadau."*[38]

**58.** Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i nodi'r rheswm dros y weithdrefn a ddewiswyd:

> *"Mae'r brif ddyletswydd ar gorff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun IAP, ynghyd â'r gofynion ar gyfer yr hyn y mae rhaid i'r cynllun hwnnw ei gynnwys, wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Ni all rheoliadau o dan adran 4(1)(c) newid y gofynion a nodir yn y Bil. Y rheswm pam yr ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol yw bod disgresiwn Llywodraeth Cymru dros gynnwys y rheoliadau yn gyfyngedig – bydd rhaid i unrhyw "wybodaeth arall" a ragnodir gan y rheoliadau ymwneud ag IAP."*[39]

**59.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar beth allai'r wybodaeth hon fod, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> *"… we do consider it's wise for Welsh Ministers to be given the flexibility to prescribe that the plans should contain other information. But we don't consider it necessary to make that power contingent on the Welsh Ministers consulting with the BSL adviser first."*[40]

**60.** Nododd swyddog a oedd yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cabinet y gallai'r ddarpariaeth fod yn angenrheidiol i ddiwygio'r gofynion ar gyrff cyhoeddus rhestredig mewn byd ac mewn sector a allai newid dros amser.[41]

## Ein barn ni

**61.** Nodwn dystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas ag adran 4 o'r Bil ac rydym yn fodlon â natur y pŵer i wneud rheoliadau a'r defnydd o'r weithdrefn ddirymu.

[38] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, Pennod 6 Tabl 2
[39] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, Pennod 6 Tabl 2
[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [65]
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [66]

## Adran 5 – Ymgynghorydd IAP

**62.** Mae adran 5 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru benodi person i wasanaethu fel cynghorydd IAP, ynghyd â phanel i'w cynorthwyo. Mae Adran 5(2) yn nodi bod rhaid i'r person a benodir yn gynghorydd IAP "yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio". Mae Adran 5(3) yn nodi bod rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r cynghorydd cyn gwneud penodiadau i'r panel, tra bod Adran 5(4) yn nodi y caiff y cynghorydd wneud y canlynol:

- "darparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon"[42];
- "darparu gwybodaeth neu gyngor, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru"[43]; a hefyd
- "ymgynghori â'r panel mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth neu gyngor sydd i'w darparu neu ei ddarparu yn unol â pharagraffau (a) neu (b)".[44]

**63.** Mae'r adran y darparu y caiff y cynghorydd IAP ofyn i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth iddo a fyddai'n helpu'r cynghorydd i arfer ei swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r corff cyhoeddus rhestredig gydymffurfio â'r cais, oni bai y byddai gwneud hynny'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau. Pan fydd corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais am wybodaeth, rhaid iddo egluro pam i'r cynghorydd IAP yn ysgrifenedig.[45]

**64.** O ran y gofyniad i benodi panel i gynorthwyo'r cynghorydd IAP, mae'r Memorandwm yn nodi, "mae gan fwrdd cynghori nodweddiadol a benodir yn gyhoeddus, y bydd strwythur y panel hwn yn cyfateb yn agos iddo, chwech i wyth aelod", gyda'r penderfyniad terfynol ar faint y panel yn nwylo Llywodraeth Cymru a'r cynghorydd.[46] Mae'n nodi, hefyd, "bydd aelodau'r panel yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol".[47] Yn ei

[42] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 5(4)(a)
[43] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 5(4)(b)
[44] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 5(4)(c)
[45] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 5(7) ac adran 5(8)
[46] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraff 291
[47] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, paragraff 290

thystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr Asesiad Effaith ar gyfer y Bil wedi amcangyfrif y byddai wyth aelod o'r panel.[48]

**65.** Pan ofynnwyd iddo sut mae'n rhagweld y byddai'r panel yn gweithredu, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol wrthym:

> "*The adviser will have a substantive role, not only a formal role. It would be unexpected, putting it politely, if that adviser was not strongly connected not only to deaf BSL signers and groups across Wales, but also to the listed public bodies charged with delivering on this legislation. There are certain things that the Welsh Government must do. They must consult the adviser on the strategy, on the guidance. When they consider the local plans as they come in, there will be a key role for the adviser there. We suspect, and hope, and the intention is, that the adviser should be a continuous critical friend, raising matters as they are raised with him or her (…) The hope and expectation is that the assisting panel will also be representative of lived experience, and possibly, looking at equivalent panels or bodies in other areas, with around six to eight persons. I know in England they have 15 people, but that's not a statutory body in the way it would be here.*"[49]

**66.** Nododd fod y ddarpariaeth sy'n gorchymyn bod yn rhaid i'r cynghorydd fod yn siaradwr IAP yn 'gonsesiwn' gan Lywodraeth Cymru.[50]

## Ein barn ni

**67.** Rydym yn deall yr awydd am hyblygrwydd o ran nifer aelodau'r panel. Fodd bynnag mae perygl, heb nodi nifer, y gallai'r panel ddod yn anodd ei reoli a mynd i gostau annisgwyl, neu, y gallai gael ei adael heb ddigon o aelodau i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen. Rydym o'r farn y gellid darparu hyblygrwydd drwy bennu nifer lleiaf ac uchaf o aelodau panel ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried rhinweddau pennu nifer lleiaf a nifer uchaf o aelodau a ddylai eistedd ar y panel.

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [72]
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [125]
[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [125]

## Adran 6 – Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig ac Adran 7 – Adroddiadau gan Weinidogion Cymru

**68.** Mae adran 6 o'r Bil yn gosod dyletswyddau ar bob corff cyhoeddus rhestredig i "lunio a chyhoeddi adroddiad" sy'n gwneud y canlynol:

- "disgrifio'r hyn y mae wedi ei wneud i weithredu'r fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun"[51]; a hefyd
- "os nad yw wedi gweithredu rhywbeth" … "esbonio pam nad yw wedi gwneud hynny".[52]

**69.** Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny anfon unrhyw adroddiad at Weinidogion Cymru a sicrhau ei fod ar gael yn IAP.[53]

**70.** Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n "asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yn unol â'r Ddeddf hon". Mae'r darpariaethau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad "o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi gyntaf", gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru a sicrhau ei fod ar gael yn IAP.[54]

**71.** Mae adran 7, hefyd, yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig "ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth a bennir ganddynt yn ysgrifenedig" at ddibenion paratoi adroddiad o dan adran 7.[55] Mae, hefyd, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP ac unrhyw bersonau priodol eraill wrth baratoi'r adroddiad.[56]

**72.** Pan ofynnwyd iddo fyfyrio ar y dyletswyddau adrodd ar gyfer cyrff cyhoeddus rhestredig, nododd swyddog a oedd yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cabinet fod y gofyniad i'r cyrff hynny adrodd ar eu cynlluniau yn mynd ymhellach na deddfwriaeth gyfatebol y DU ac yn rhoi cyfle iddynt siarad am eu cynnydd.[57]

---

[51] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 6(1)(a)
[52] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 6(1)(b)
[53] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 6(2)
[54] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 7(2)
[55] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 7(3)
[56] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 7(4)
[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [39]

### Ein barn ni

**73.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ddyletswydd arfaethedig ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi adroddiadau cynnydd, ac yn ystyried bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol ynghylch addasrwydd y strategaeth genedlaethol, y canllawiau a chynlluniau unigol ar gyfer IAP sydd i'w cyhoeddi o dan y Bil.

**74.** Rydym yn ystyried bod y gofynion adrodd yn gyffredinol yn rhesymol, a byddwn yn cefnogi'r Senedd i gynnal gwaith craffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus o ran cynyddu mynediad i arwyddwyr IAP at wasanaethau cyhoeddus. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r angen am adroddiadau cynnydd yn wiriad cyhoeddus ar gyrff sy'n tanberfformio, a byddant yn fecanwaith craffu pwysig wrth ddwyn y cyrff hynny i gyfrif.

## Adran 8 – Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig"

**75.** Mae adrannau 4 a 6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyletswyddau ar "gyrff cyhoeddus rhestredig" i baratoi cynlluniau IAP ac adrodd ar eu gweithrediad.

**76.** Mae adran 8(1) yn nodi ystyr "corff cyhoeddus rhestredig" at ddiben y Bil:

- Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn:
  - Iechyd Cyhoeddus Cymru;
  - Felindre; a hefyd
  - Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- yr awdurdodau iechyd arbennig a ganlyn a sefydlwyd dan adran 22 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*:
  - Iechyd a Gofal Digidol Cymru; a hefyd
  - Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

**77.** Mae adran 8(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, i ddiwygio'r rhestr o gyrff yn adran 8(1). Mae'r Memorandwm yn nodi ei bod yn "rhesymol disgwyl" y gallai fod

angen i'r rhestr "newid dros amser i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid." Felly, mae'n datgan, ystyrir bod defnyddio rheoliadau yn briodol[58]. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau bod y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol, gan ddatgan fel a ganlyn:

> "*Mae hwn yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y "cyrff cyhoeddus rhestredig" sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Senedd a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori hefyd â'r Cynghorydd IAP a phersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.*"[59]

**78.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol pam fod rhai Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u rhestru yn y Bil gan ddefnyddio eu teitlau swyddogol llawn (megis Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru), tra bod eraill wedi'u talfyrru, fel "Felindre".[60]

**79.** Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol, a'r swyddogion yn ei gwmni, fod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wedi mabwysiadu'r un dull, ond aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> "*I'm completely comfortable with the idea of adding the full names in. I shouldn't think that will cause any problems whatsoever; it's purely a drafting issue*".[61]

**80.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd yn debygol y byddai unrhyw ddryswch a'i bod yn eglur at ba gyrff y cyfeirir.[62]

## Ein barn ni

**81.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Rydym yn cytuno ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddryswch yn cael ei achosi gan yr arddull drafftio a fabwysiadwyd yn adran 8(1)(c) ynghylch Ymddiriedolaethau GIG Cymru a restrir yn y ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai diwygio'r cyfeiriadau

[58] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, Pennod 6 Tabl 2
[59] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, Pennod 6 Tabl 2
[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [134]
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [137]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion [78]

hyn i gyd-fynd â'r gorchmynion sefydlu perthnasol ar gyfer y cyrff hynny yn ddull gwell.

**Argymhelliad 3.** Er eglurder, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 8(1)(c) i adlewyrchu enwau llawn Ymddiriedolaethau GIG Cymru penodedig drwy gyfeirio at eu gorchmynion sefydlu cyfatebol.

**82.** Rydym yn fodlon â defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adran 8(2) o'r Bil.